



Cynllun  
Datblygu  
Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

## Arholiad CDLI Newydd Caerdydd

CD07 Ymateb y Cyngor i  
Gwestiynau Ategol y  
Arolygwyr ar Gydweithredu  
Rhanbarthol yn ID09



[www.cdllcaerdydd.co.uk](http://www.cdllcaerdydd.co.uk)



02920 872087



[CDL@caerdydd.gov.uk](mailto:CDL@caerdydd.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English



## **Cyngor Caerdydd**

### **Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021 i 2036**

#### **Archwiliad**

#### **Cwestiynau atodol yr arolygwyr**

1. Rydym wedi adolygu ymatebion y Cyngor i'n cwestiynau a'n sylwadau cychwynnol a ddarperir yn '*CD05 Ymateb y Cyngor i Sylwadau a Chwestiynau a godwyd gan yr Arolygwyr yn ID04*'. Mae'r nodyn hwn wedi'i gyfeirio at y Cyngor ac mae'n nodi materion y mae angen rhagor o wybodaeth neu eglurhad arnom arnynt.
2. Nid yw'r holl faterion yr ydym yn dymuno eu harchwilio wedi'u nodi yn y nodyn hwn. Mae'r rhaglen Gwrandawiadau yn nodi'r meysydd pwnc y byddwn yn eu trafod drwy'r archwiliad, ac mae agendâu'r Gwrandawiadau yn nodi cwestiynau pellach mewn perthynas â'r pynciau hyn.

#### **Gweithio Rhanbarthol a Chydweithredu**

3. Nodwn atebion y Cyngor ynglŷn â Chynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol (Cwestiwn 2) a Gweithio Cydweithredol (Cwestiynau 3 a 4); ac rydym wedi adolygu'r dystiolaeth ategol y cyfeiriwyd ati gan y Cyngor, gan gynnwys yr '*Asesiad rhanbarthol o dwf a mudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd*' (CDLI 36), '*Crynodeb o Gydweithredu Rhanbarthol*' (CDLIN 28), ac '*Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol*' (CDLIN 43).
4. Er ein bod yn cydnabod y gwaith a wnaed gan y Cyngor yn y maes hwn a'r strwythurau cydweithredol rhanbarthol sydd wedi cefnogi trafodaethau a gwaith ar faterion rhanbarthol, nid ydym yn glir sut mae'r gwaith hwn wedi ffurfio'r dewisiadau strategol a gofodol a wnaed yn y CDLI.
5. Rydym eisiau deall yn well y berthynas rhwng dystiolaeth ranbarthol, cydweithredu a'r dewisiadau gofodol a wneir yn y Cynllun, a'r hyn y gall y dewisiadau hynny ei olygu yn ymarferol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae'r Cynllun yn adlewyrchu rôl Caerdydd yn y rhanbarth, a bod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi mynd trwy'r holl gyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydweithredu o ran paratoi'r cynllun a'r sail dystiolaeth.
6. Yn erbyn y cefndir hwnnw, byddem yn ddiolchgar pe bai'r Cyngor yn gallu esbonio:
  - a. sut maen nhw wedi ystyried goblygiadau strategaeth ofodol y Cynllun ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach, gan gynnwys ystyried materion fel dosbarthu tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden a defnydd strategol

arwyddocaol arall ar awdurdodau cyfagos mewn perthynas â materion gan gynnwys newid poblogaeth, tai, gweithgarwch economaidd, symudiadau trafnidiaeth, tagfeydd, ystyriaethau amgylcheddol a seilwaith;

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau strategaeth ofodol y Cynllun ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach drwy'r ffyrdd canlynol:

- **Alinio'r Cynllun â pholisi rhanbarthol a chenedlaethol a thystiolaeth ranbarthol** - Mae strategaeth ofodol y Cynllun yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol a nodi Caerdydd o fewn ardal dwf genedlaethol. Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y cynllun yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio tystiolaeth ddemograffig ac economaidd ranbarthol, a baratowyd ar raddfa Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) (CDLIN36) (e.e. rhagamcanion poblogaeth a mudo, dadansoddiad o'r farchnad lafur) i ddeall sut mae ei ragdybiaethau twf yn rhyngweithio ag awdurdodau cyfagos o ran twf poblogaeth/swyddi, patrymau teithio a sut mae'r twf mewn poblogaeth a swyddi yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol a strategaethau'r CDLI sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar.
- **Defnyddio strategaeth tai a chyflogaeth sy'n canolbwyntio ar dir llwyd i reoli twf rhanbarthol a mudo** - Mae'r Cynllun yn canoli tai newydd ar dir llwyd, ymrwymadau presennol ac ardaloedd adfywio, heb unrhyw ddyraniadau tir glas strategol newydd y tu hwnt i'r safleoedd presennol a nodwyd yn y CDLI a fabwysiadwyd. Bwriad hyn yw darparu cyfran deg o dwf rhanbarthol yng Nghaerdydd a lleihau'r pwysau o ran goferu i dir glas awdurdodau cyfagos. Drwy gynllunio ar gyfer lefel "uchelgeisiol ond realistig" o dwf, mae'r Cyngor wedi ystyried sut y byddai tan-ddarpariaeth neu orddarpariaeth yng Nghaerdydd yn effeithio ar fudo, fforddiadwyedd a symud y galw i awdurdodau eraill P-RC.
- **Atgyfnerthu rolau economaidd a manwerthu rhanbarthol** - Mae'r Cynllun yn atgyfnerthu rôl economaidd ranbarthol Caerdydd drwy ganoli tir cyflogaeth mewn lleoliadau hygyrch, canolog ac adfywio, gan gefnogi swyddogaeth Caerdydd fel canolfan economaidd ranbarthol wrth ategu, yn hytrach na dyblygu, strategaethau cyflogaeth awdurdodau cyfagos. Mae polisiau manwerthu a hamdden yn cadw Caerdydd fel y brif ganolfan ranbarthol ond maent yn cael eu hategu gan gapasiti manwerthu/gwaith effaith er mwyn osgoi niwed diangen i ganol trefi cyfagos (CDLIN41). Mae hyn yn dangos ystyriaeth benodol o batrymau siopa rhanbarthol ac atyniad masnach drawsffiniol.
- **Asesu goblygiadau trafnidiaeth drawsffiniol** - Mae'r sail dystiolaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth (CDLIN15) yn asesu llifoedd cymudo, gan gynnwys symudiadau trawsffiniol o fewn P-RC. Mae'r twf wedi'i gyfeirio at leoliadau y gellir

eu gwasanaethu gan reilffordd, bysus a theithio llesol, gan gefnogi Metro De Cymru a'r nod o gyfyngu ar gymudo mewn ceir o/i awdurdodau cyfagos.

- **Gwerthuso effeithiau amgylcheddol cronrus** - Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ([CDLIN22](#)) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ([CDLIN23](#)) yn ystyried effeithiau cronrus a thrawsffiniol ar ansawdd aer, yr hinsawdd, bioamrywiaeth a pherygl llifogydd, gan gydnabod bod yr effeithiau hyn yn ymestyn y tu hwnt i ffin Caerdydd. Yn ogystal, mae cadw lletemau glas ac osgoi safleoedd tir glas strategol newydd yn helpu i warchod y dirwedd, rhwydweithiau ecolegol a gwahanu rhwng Caerdydd ac aneddiadau cyfagos.
- **Ymgysylltu ag awdurdodau cyfagos** - Mae paratoi'r CDLIN wedi cynnwys ymgysylltu strwythuredig ag awdurdodau cyfagos, cyrff rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Drwy hyn, mae Caerdydd wedi trafod niferoedd tai, rolau cyflogaeth, trafnidiaeth a seilwaith fel bod y strategaeth ofodol yn gweithio fel rhan o batrwm twf cydlynol ar draws P-RC.

- b. sut mae tystiolaeth ar lefel ranbarthol a gwaith cydweithredol (gan gynnwys CDLI36, CDLIN28 a thystiolaeth ranbarthol berthnasol arall) wedi cael ei defnyddio i nodi, deall ac ymateb i'r effeithiau rhanbarthol sy'n deillio o **ddewisiadau gofodol a defnydd tir Caerdydd**;

#### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor wedi defnyddio tystiolaeth ar lefel ranbarthol (gan gynnwys [CDLI36](#), [CDLIN28](#) a thystiolaeth ranbarthol berthnasol arall) a gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos a Llywodraeth Cymru i nodi a deall goblygiadau rhanbarthol strategaeth ofodol y Cynllun. Mae'r dystiolaeth hon wedi ffurfio'n uniongyrchol ddull sy'n canolbwyntio ar dir llwyd a theithio cynaliadwy ac sy'n cefnogi rôl ranbarthol Caerdydd wrth reoli effeithiau trawsffiniol ar awdurdodau cyfagos.

Nid yw strategaeth ofodol y Cynllun wedi'i datblygu ar ei phen ei hun. Mae'n cael ei fframio'n benodol o fewn [Cymru'r Dyfodol](#) sy'n nodi Caerdydd o fewn Ardal Dwf Genedlaethol ac mae'n cael ei llywio gan dystiolaeth ranbarthol a restrir uchod.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio modelu demograffig ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ([CDLI36](#)) i ddeall twf poblogaeth/swyddi, patrymau teithio a sut mae'r twf mewn poblogaeth a swyddi yn cyd-fynd â [Cymru'r Dyfodol](#) a strategaethau'r CDLI sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n dod i'r amlwg yn ddiweddar ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn atgyfnerthu'r penderfyniad i fynd ar drywydd lefel twf uchelgeisiol ond realistig sy'n sicrhau bod Caerdydd yn cwrdd â chyfran deg o'r galw rhanbarthol wrth osgoi pwysau goferu i awdurdodau cyfagos.

Mae'r Cyngor wedi tynnu ar dystiolaeth economaidd i nodi rôl Caerdydd fel canolfan gyflogaeth ranbarthol, deall dalgylchoedd y farchnad lafur a phatrymau cymudo

trawsffiniol, sicrhau bod darpariaeth tir cyflogaeth yn ategu strategaethau economaidd awdurdodau cyfagos yn hytrach na chystadlu â nhw, ac mae'n cefnogi strategaeth ofodol sy'n canoli swyddi mewn lleoliadau sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau effeithiau tagfeydd rhanbarthol. Mae hyn yn sicrhau bod dewisiadau tir cyflogaeth Caerdydd yn cryfhau economi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae'r Cyngor wedi tynnu ar dystiolaeth manwerthu ([CDLIN41](#)) i gynnal rôl Caerdydd fel y brif ganolfan fanwerthu ranbarthol, asesu atyniad masnach ac effeithiau posibl ar ganol trefi cyfagos a sicrhau nad yw cynigion manwerthu/hamdden mawr yn tanseilio bywiogrwydd canolfannau mewn awdurdodau cyfagos. Mae hyn yn dangos ystyriaeth o effeithiau economaidd trawsffiniol.

Mae'r Cyngor wedi tynnu ar dystiolaeth trafndiaeth (cynllunio trafndiaeth ranbarthol, cynllunio'r Metro, [CDLIN15](#)) i ddeall y llifoedd cymudo trawsffiniol, mannau lle mae llawer o dagfeydd a chapasiti'r rhwydwaith, rôl Metro De Cymru a choridorau bysus/rheilffyrdd rhanbarthol a sut y gall canoli twf mewn lleoliadau canolog a choridorau leihau dibyniaeth ar geir ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r dystiolaeth hon yn ffurfio'n uniongyrchol strategaeth ofodol y Cynllun sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth gynaliadwy.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio asesiadau amgylcheddol i werthuso (Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ([CDLIN22](#)), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ([CDLIN23](#)) ac Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ([CD02](#))) rhwydweithiau ecolegol a safleoedd gwarchodedig trawsffiniol a rhyngweithiadau o ran perygl llifogydd ag awdurdodau cyfagos. Mae hyn yn sicrhau nad yw dewisiadau defnydd tir Caerdydd yn allforio pwysau amgylcheddol neu seilwaith i awdurdodau cyfagos.

Mae defnyddio'r dystiolaeth a nodir uchod wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar strategaeth ofodol y Cynllun sy'n cynnig strategaeth dai dan arweiniad tir llwyd, lleihau pwysau ar dir glas awdurdodau cyfagos, twf dwysedd uchel, defnydd cymysg mewn lleoliadau hygyrch, cefnogi amcanion trafndiaeth rhanbarthol, gwarchod lletemau glas a bylchau mewn aneddiadau, diogelu swyddogaethau tirwedd ac ecolegol rhanbarthol, cydgrynhoi tir cyflogaeth mewn ardaloedd strategol sydd wedi'u cysylltu'n dda, ac atgyfnerthu rôl economaidd ranbarthol Caerdydd heb danseilio canolfannau cyfagos.

- c. sut mae ystyried effeithiau a pherthynas ranbarthol wedi llywio penderfyniadau gofodol a defnydd tir penodol a wneir yn y Cynllun, a lle mae tystiolaeth o hyn yn y Cynllun neu ei ddogfennau ategol;

## **Ymateb:**

Mae dewisiadau gofodol a defnydd tir Caerdydd wedi'u ffurfio'n uniongyrchol gan yr angen i reoli effeithiau trawsffiniol ar farchnadoedd tai, llifoedd cymudo, gweithgarwch economaidd, patrymau manwerthu, asedau amgylcheddol a seilwaith ar draws P-RC.

Mae'r dylanwadau hyn yn cael eu dangos yn benodol trwy gydol y Cynllun a'i bapurau technegol.

Atgyfnerthodd tystiolaeth ddemograffig ranbarthol y penderfyniad i fynd ar drywydd lefel twf uchelgeisiol ond realistig sy'n sicrhau bod Caerdydd yn cwrdd â chyfran deg o'r galw ranbarthol wrth osgoi pwysau goferu i awdurdodau cyfagos.

Dangosodd gwaith cynllunio trafndiaeth ranbarthol a chynllunio'r Metro y byddai canoli twf mewn ardaloedd sydd â chysylltedd rheilffyrdd/bysus ranbarthol cryf yn lleihau cymudo mewn ceir i mewn ac allan o Gaerdydd. Mae hyn yn cefnogi amcanion ranbarthol o ran newid dulliau teithio ac yn lleihau effeithiau tagfeydd ar awdurdodau cyfagos. Gwelir hyn yn strategaeth y Cynllun sy'n rhoi pwyslais ar ddatblygu sy'n canolbwyntio ar drafndiaeth gynaliadwy, y Papur Cefndir Trafndiaeth ([CDLIN15](#)) a Pholisi 33 *Cymru'r Dyfodol* sy'n ymwneud â chysylltedd ranbarthol ac integreiddio'r Metro.

Mae tystiolaeth economaidd ranbarthol ([CDLIN36](#)) yn nodi mai Caerdydd yw prif ganolfan gyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda marchnad lafur yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ffin y ddinas. Mae'r Cynllun felly yn gwarchod tir cyflogaeth presennol ac yn canoli cyflogaeth newydd mewn lleoliadau hygyrch i gefnogi'r economi ranbarthol heb danseilio dyraniadau cyflogaeth awdurdodau cyfagos. Mae hyn yn cael ei ddangos yn strategaeth a pholisïau economaidd y Cynllun.

Dangosodd y dystiolaeth ar gyfer manwerthu fod Caerdydd yn gweithredu fel y brif ganolfan fanwerthu ranbarthol ([CDLIN41](#)). Felly mae'r Cynllun yn cefnogi canol y ddinas wrth reoli manwerthu y tu allan i'r canol er mwyn osgoi effeithiau trawsffiniol negyddol. Mae hyn yn cael ei ddangos yn y Papur Technegol Cefndir Manwerthu ([CDLIN14](#)) a strategaeth a pholisïau manwerthu'r Cynllun.

Er mwyn rheoli twf, mae'r Cynllun yn cadw lletemau glas ac yn osgoi safleoedd strategol tir glas newydd i atal cyfuniad a gwarchod rhwydweithiau ecolegol ranbarthol. Mae hyn yn cael ei ddangos yn yr Astudiaeth Lletemau Glas ([CDLIN45](#)) a'r Astudiaeth Ardal Tirwedd Arbennig ([CDLIN44](#)).

Yn olaf, mae effeithiau ansawdd aer, allyriadau carbon, perygl llifogydd a bioamrywiaeth yn ymestyn y tu hwnt i ffin Caerdydd. Mae strategaeth y Cynllun sy'n canolbwyntio ar drafndiaeth gynaliadwy a thir llwyd wedi'i chynllunio i leihau allyriadau ranbarthol a gwarchod asedau amgylcheddol a rennir. Mae hyn yn cael ei ddangos yn yr Arfarniad Cynaliadwyedig Integredig ([CDLIN22](#)) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ([CDLIN23](#)).

- d. i ba raddau y mae Caerdydd a'i chymdogion ranbarthol wedi ystyried a ellid diwallu anghenion neu ddefnydd arwyddocaol yn ranbarthol (er enghraifft datblygu cyflogaeth neu hamdden yn sylweddol) mewn mannau eraill o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach, a sut mae'r ystyriaeth hon wedi llywio'r strategaeth ofodol a nodir yn y Cynllun; a

## Ymateb:

Mae'r Cyngor a'r cymdogaion rhanbarthol wedi ystyried a ellid diwallu anghenion neu ddefnydd arwyddocaol yn rhanbarthol mewn mannau eraill yn P-RC, trwy dystiolaeth ranbarthol, cydweithio, ac ystyried aliniad polisi â Cymru'r Dyfodol. Mae hyn wedi ffurfio'n uniongyrchol strategaeth ofodol y Cynllun.

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi mai Caerdydd yw'r brif ganolfan economaidd a gwasanaeth ar gyfer y rhanbarth, y prif ffocws ar gyfer cyflogaeth, manwerthu a hamdden lefel uwch a'i bod yn lleoliad allweddol ar gyfer twf dwysedd uchel sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth gynaliadwy. Mae gan awdurdodau cyfagos rolau cyflenwol (e.e., tir diwydiannol strategol yn Rhondda Cynon Taf, logisteg yng Nghasnewydd, awyrofod/gweithgynhyrchu uwch ym Mro Morgannwg). Mae rhannu'r rolau hyn yn rhanbarthol yn ffurfio'r waelodlin ar gyfer penderfynu ble y dylai defnyddiau o bwys rhanbarthol fynd.

Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (CDLIN36) a thystiolaeth economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn archwilio dosbarthiad safleoedd cyflogaeth strategol ar draws y rhanbarth, dalgylchoedd y farchnad lafur a llifoedd cymudo ac addasrwydd gwahanol awdurdodau ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth. Daeth hwn i'r casgliad ei bod yn aml yn well lleoli defnyddiau diwydiannol/logisteg ar raddfa fawr yn Rhondda Cynon Taf, Casnewydd neu Fro Morgannwg, lle mae mwy o argaeledd tir a mynediad at draffordd ond bod cyflogaeth dwysedd uchel mewn swyddfeydd, yn seiliedig ar wybodaeth ac yn y sector gwasanaeth yn fwyaf priodol yng Nghaerdydd, o ystyried ei hygyrchedd trafnidiaeth rhanbarthol a'i atyniad i'r farchnad lafur. O ystyried hyn, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y math hwn o gyflogaeth, yn gyson â'i rôl economaidd ranbarthol.

Daeth yr astudiaeth manwerthu a hamdden (CDLIN41) i'r casgliad mai Caerdydd yw'r brif ganolfan fanwerthu a hamdden ranbarthol o hyd, ond rhaid rheoli twf er mwyn osgoi niweidio canolfannau eraill. O ystyried hyn, mae'r Cynllun yn cefnogi manwerthu/hamdden sy'n canolbwyntio ar ganol y ddinas, nid ehangu y tu allan i'r canol.

Asesodd gwaith cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a chynllunio'r Metro ble y dylid lleoli prif ddefnyddiau sy'n cynhyrchu teithiau i leihau tagfeydd rhanbarthol. Daeth hyn i'r casgliad y dylid lleoli defnyddiau dwysedd uchel, arwyddocaol yn rhanbarthol lle mae cysylltedd rheilffyrdd/bysus rhanbarthol ar ei gryfaf. O ystyried hyn, mae'r Cynllun yn canoli cyflogaeth fawr a datblygiadau defnydd cymysg yng nghanol Caerdydd.

- e. sut mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag awdurdodau cyfagos yn benodol ar oblygiadau rhanbarthol a thrawsffiniol strategaeth ofodol Caerdydd, a pha

dystiolaeth sydd yna, y tu hwnt i absenoldeb sylwadau, bod yr awdurdodau hynny'n deall, yn cefnogi neu'n cyd-fynd â'r dewisiadau gofodol a defnydd tir a wneir yn y Cynllun a'u heffeithiau posibl.

### **Ymateb:**

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu strwythuredig, parhaus ag awdurdodau cyfagos ar bob cam o baratoi'r CDLI Newydd (CDLIN), yn benodol i fynd i'r afael â goblygiadau rhanbarthol a thrawsffiniol ei strategaeth ofodol. Mae'r ymgysylltu hwn yn mynd y tu hwnt i ymgynghori statudol ac mae'n cael ei ddangos trwy gydweithio, astudiaethau sail dystiolaeth a rennir, fforwm rhanbarthol ac ymatebion ffurfiol gan awdurdodau cyfagos.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn grwpiau cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd P-RC rheolaidd. Mae'r fforymau hyn wedi cael eu defnyddio i rannu tystiolaeth ddemograffig, economaidd a thrafnidiaeth sy'n dod i'r amlwg ac i sicrhau aliniad â'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd bob deufis gydag awdurdodau cyfagos drwy Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDdC). Mae hyn yn galluogi trafodaeth ar faterion trawsffiniol megis marchnadoedd tai, cymudo, hierarchaeth fanwerthu, lletemau glas a choridorau trafnidiaeth a rhannu a chomisiynu tystiolaeth ar y cyd.

Mae awdurdodau cyfagos wedi bod yn rhan o sawl astudiaeth ranbarthol a gomisiynwyd ar y cyd, sydd wedi llywio strategaeth ofodol Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys yr asesiad ranbarthol o dwf a mudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ([CDLIN36](#)). Mae hwn yn diffinio rôl Caerdydd fel y brif ganolfan gyflogaeth ranbarthol ac yn nodi rolau cyflenwol i eraill. Mae'r aliniad hwn yn dangos bod awdurdodau cyfagos yn cefnogi Caerdydd i ganolbwyntio ar gyflogaeth sector gwasanaeth dwysedd uchel yn hytrach nag allforio prif ddefnyddiau cyflogaeth.

Mae gwaith cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio'r Metro wedi'u datblygu'n gydweithredol drwy Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid P-RC. Felly, mae awdurdodau cyfagos yn deall yr angen i Gaerdydd ganoli twf mewn lleoliadau sydd â thrafnidiaeth gynaliadwy, y manteision ranbarthol o leihau cymudo pellteroedd hir mewn car a goblygiadau trawsffiniol dewisiadau trafnidiaeth Caerdydd

Mae'r cwestiwn yn gofyn yn benodol am dystiolaeth gadarnhaol, nid dim ond "doedd neb yn gwrthwynebu". Gall y Cyngor dynnu sylw at sawl math o aliniad cadarnhaol.

- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y Cynllun yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol, sy'n nodi strategaeth ranbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod strategaeth ofodol Caerdydd yn cyd-fynd â'r rolau a'r perthnasoedd ranbarthol a nodir ar gyfer pob awdurdod P-RC.



- Cadarnhaodd Casnewydd a Bro Morgannwg yn eu hymatebion i'r Strategaeth a Ffefrir nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r lefel arfaethedig o dwf na'r strategaeth ofodol.
- Mae'r CDLlau sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n dod i'r amlwg gan sawl un o awdurdodau P-RC yn atgyfnerthu rôl Caerdydd fel canolfan ranbarthol ac yn cynllunio ar gyfer swyddogaethau cyflogaeth cyflenwol. Mae hyn yn dangos cydlyniant strategol.

Mae strategaeth ofodol Caerdydd yn adlewyrchu ymgysylltu rhanbarthol drwy ganoli defnyddiau cyflogaeth a hamdden mawr yng Nghaerdydd, yn gyson â rolau rhanbarthol, yn osgoi dyraniadau tir glas strategol newydd a fyddai'n creu ymlediad trawsffiniol, yn canoli twf mewn lleoliadau sydd â thrafnidiaeth gynaliadwy i leihau tagfeydd rhanbarthol ac yn sicrhau bod darpariaeth tai yn diwallu cyfran Caerdydd o angen rhanbarthol. Mae'r dewisiadau hyn yn ymateb yn uniongyrchol i faterion a godwyd mewn trafodaethau rhanbarthol.

7. Wrth geisio'r wybodaeth hon, rydym yn pwysleisio nad ydym yn archwilio Cynllun Datblygu Strategol, ac nid yw strategaethau gofodol ar lefel ranbarthol neu opsiynau defnydd tir rhanbarthol amgen o'n blaenau. Mae ein harchwiliad yn canolbwyntio ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd, ac ar ddeall sut mae'r dewisiadau gofodol a defnydd tir y mae'n eu gwneud ar gyfer Caerdydd wedi cael eu llywio gan dystiolaeth ranbarthol, cydweithredu a'r cyd-destun a ddarperir gan Cymru'r Dyfodol, a sut mae eu goblygiadau i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach wedi cael eu hystyried. Ein nod yw egluro'r berthynas rhwng Cynllun Caerdydd a'r fframwaith rhanbarthol ehangach, ac nid asesu na phenderfynu ar strategaeth ofodol ranbarthol.
8. Dylai'r Cyngor roi ymateb erbyn 15 Mai 2026 fan bellaf.

*A Thickett*

Arolygydd

*G Hall*

Arolygydd